

PANDY'R ODYN

Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd.

Agraffiad

Argraffiadau: Fersiwn Terfynnol

Chambers Conservation Ltd
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif 09787239
Cyfeiriad cofrestredig: Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
www.chambersconservation.com

Cynnwys

Y Rhan Gyntaf, Gwerthusiad Ardal Gadwraeth

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen Hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Trosolwg
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

8.0 Hanesion Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

10.0 Bioamrywiaeth

Yr Ail Ran, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.

1.0 Crynodeb o'r Dadansoddiad CGCB
2.0 Deall y Materion
  2.1 Cyflwr
  2.2 Adeiladau mewn Perygl
  2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
  3.1 Asesiad Ffiniau
  3.2 Gwarchodaeth Ddeddfwriaethol
  3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
  3.4 Cynaliadwyedd
  3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghoriad

Atodiadau

A. Ffynonellau



Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH.

1.0 Cyflwyniad

1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth yma ar y cyd â'r ddogfen **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain**, y gellir ei lawrlwytho o wefan y ParcCenedlaethol.Mae'r ddogfen honno'n cynnwys eglurhad o ddiben a methodoleg y Gwerthusiad, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad, a'r cefndir o ran cynllunio a deddfwriaeth.

1.1.2 Yn ogystal â'r Cynllun Rheolaeth sy'n mynd gyda'r Gwerthusiad Ardal hwn, cafodd dogfen bellach **Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol**, ei pharatoi er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, a rhoi cyngor ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol a'r rhai o bwysigrwydd lleol, heb niweidio eu cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

1.2 Golwg cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Diffinnir hyd a lled ardal yr astudiaeth yn rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gw. Ffig. 02), ond cynhwyswyd y cyffiniau agos (gan gynnwys yr ardaloedd tirwedd gerllaw) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn addas.

Lleoliad a Gosodiad

1.2.2 Pentref bychan yng Ngwynedd yw Pandy'r Odyn, rhyw 0.5km i'r gorllewin o Ddolgellau ar Ffordd Tywyn. Deuir ato drwy ymyl gorllewinol Dolgellau, taith a nodweddir bellach gan y datblygiadau modern sydd wedi digwydd ar hyd y ffordd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

1.2.3 Mae grŵp bach o adeiladau wedi'i leoli nesaf at Bont Bandy'r Odyn, o'r 18fed ganrif, lle mae'r ffordd yn croesi Afon Ceunant.


1.2.4 Mae Afon Ceunant yn dod i lawr o'r bryniau o islaw Cadair Idris (893m AOD), yn ymuno ag Afon Wnion ychydig i'r gogledd o'r pentrefan. Mae llwybr gyda llwybr troed yn croesi'r Wnion a hen linell rheilffordd Rhiwabon i Abermaw, sydd bellach yn rhan o Lwybr Mawddach.



01 Dolgellau yn edrych tuag at Pandy'r Odyn. Mae Bryn-y-Gwin Isaf, y rhodfa o 1806 a'r bythynnod yn amlwg. © RCAHMW.

1.2.5 Gorwedd Pandy'r Odyn yn nyffryn bas Afon Wnion wrth iddi ledu'n raddol i ymuno â'r Mawddach ger Llanelltyd ac yna i mewn i Aber Mawddach tu draw. Mae Aber Mawddach yn ffurfio basn llydan rhwng y Rhinogydd i'r gogledd a'r llethrau sy'n arwain at grib Cadair Idris i'r de

1.2.6 Dyddiad dynodi: 1978.



Ardal Gadwraeth Bresennol
1:2000 ar A4

02Cynllun yr Ardal Gadwraeth([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans100022403)

2.0 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Ceir tystiolaeth o weithgaredd cynhanes yn yr ardal o amgylch er nad o fewn yr ardal gadwraeth ei hun. Mae tystiolaeth bosibl fod tarddiad ganoloesol i Ffordd Tywyn yn cefnogi'r arwyddocâd dystiolaethol, allai arwain at ddealltwriaeth bellach o hanes cynnar yr ardal ar ymylon yr anheddiad canoloesol yn bennaf yn Nolgellau. Gall fod gweddillion y Pandy a'r rhan o'r teras a ddymchwelwyd hefyd dal o dan y ddaear.

2.1.2 Mae dwy elfen bendant i'r ardal gadwraeth: bythynnod ystâd pictwrésg dechrau'r 19eg ganrif Pandy'r Odyn, wedi'u grwpio o amgylch Pont Pandy'r Odyn; a rhan o ystâd Bryn-y-Gwin, sy'n cynnwys y tŷ cyntaf, Bryn-y-Gwin Uchaf, hen felin wlân, a thŷ, sy'n rhannol o'r 17eg ganrif, ym Mryn-yr-Odyn.


2.1.3 Er bod cyrion Dolgellau yn cyrraedd Pandy'r Odyn erbyn hyn, mae'r anheddiad wedi cadw arwyddocâd esthetaidd a hanesyddol uchel fel rhan o ystâd fach sydd ar wahân i'r dref gyfagos. Gwelir yr arwyddocâd hwn mewn nifer o ffyrdd:

- Grwp o fythynnod neilltuol o amgylch Pont Pandy'r Odyn.
- Yr elfennau sy'n weddill o'r Felin Wlân, bellach Twll-y-Bwbach.
- Perthynas y grŵp o fythynnod o ddechrau'r 19eg ganrif â Phont Pandy'r Odyn o'r 18fed ganrif.
- Y berthynas rhwng y rhesi o fythynnod ar bob ochr y ffordd, yn enwedig wrth eu gweld wrth ddod i mewn.
- Perthynas y bythynnod â'r ffordd, mae'r rhai ar yr ochr ogleddol wedi'u gosod islaw lefel y ffordd yn rhoi iddynt gymeriad arbennig.
- Cyfoethogir y gwerth esthetaidd a hanesyddol gan y nifer sylweddol o ffotograffau cynnar a darluniau o'r tai ar Ffordd Tywyn.
- Bryn-y-Gwin Uchaf, adeilad nodedig, sy'n tarddu o'r 17eg ganrif a gyda chyfres o addasiadau diweddarach.

2.1.4 Mae gosodiad tirwedd Pandy'r Odyn yn bwysig i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth ac mae rhai golygfeydd lle mae'r berthynas hon yn arbennig o bwysig. Nodir y rhain yn benodol yn nes ymlaen yn yr arfarniad, ond dyma rai enghreifftiau allweddol:



03Tuag at Ddolgellau o Bont Pandy'r Odyn (2022).



04Cerdyn Post o Bandy'r Odyn, c.1900. (Llun diolch i Photography.Wales)

- Golygfeydd ar hyd Afon Ceunant tuag at Bont Pandy'r Odyn.
- Golygfeydd ar draws ffermdir agored tuag at y bythynnod.

2.1.5 Mae gan Bandy'r Odyn gymeriad pensaernïol cryf a phendant, wedi osgoi datblygiadau diweddarach sylweddol ac mae yma adeiladau allweddol. Mae'r prif elfennau'n cynnwys:

- Perthynas y grwpiau o fythynnod ar hyd y brif ffordd i Bont Pandy'r Odyn.
- 1-3 Pandy'r Odyn a Tal-y-Bont, wedi'u gosod islaw lefel y ffordd gyda 'ffynnon' yn y blaen.
- Cadwyd manylion arddull bictwrésg a 'cottage ornée'.
- Tŷ 17eg ganrif ym Mryn-yr-Odyn wedi'i ymestyn yn y dull ystâd bictwrésg
- Bryn-y-Gwin Uchaf, adeilad amlwedd yn wreiddiol o'r 17eg ganrif eto â naws bictwrésg bendant.
- Parc coediog a thŷ Bryn-y-Gwin.



05Bryn-y-Gwin Uchaf (Wikimedia Commons)



06 Y ffordd yn mynd i lawr heibio 1-3 Pandy'r Odyn (2022).

3.0 Llinell Amser Hanesyddol

Cynhanes

3.1.1 Ymdrinnir yn fanwl â hanes Pandy'r Odyn mewn mannau eraill. Ni fwriedir i'r crynodeb isod roi ond cyd-destun. Dylid darllen yr adroddiad hwn ochr yn ochr â *Dogellau: Deall Nodweddoin Trefol* Cadw, dogfen sy'n ymestyn i gynnwys Pandy'r Odyn.

3.1.2 Ceir tystiolaeth o weithgaredd cynhanes ar hyd y Mawddach, gyda bwyeill carreg Neolithig wedi'u darganfod, yn cynnwys i'r gogledd o'r Wnion ger Pandy'r Odyn.[1]

3.1.3 Mae tystiolaeth o nifer o safleoedd Defodol ac Angladdol yn ardal Dolgellau, megis Beddrod Pentre Farm[2]ger Llanelltyd, sy'n dangos cryn dipyn o weithgaredd yr Oes Efydd Gynnar, er y deellir y gellir olrhain y dystiolaeth gyntaf o weithgaredd dynol i tua'r bedwaredd mileniwm BC.[3]


3.1.4 Ar yr ucheldir o gwmpas Dolgellau mae clystyrau o anheddiad domestig o'r cyfnod cynhanes diweddarach yn ogystal â strwythurau amddiffynnol, megis Coed Pen-y-Bryn[4]a Moel Offrwm[5], i'r gogledd a Tyddyn-y-Coed i'r de-orllewin.

3.1.5 Mae'n bur debyg fod anheddiad yn rhannau isaf y dyffryn, sydd wedi'i guddio gan ffermio neu ddatblygu diweddarach gan y byddai wedi bod yn dir amaethyddol gwerthfawr.


3.1.6 Er bod ffyrdd a safleoedd milwrol (yn cynnwys caer ym Mrithdir), ychydig o dystiolaeth sydd o anheddiad Rhufeinig ar y lefelau is..

Canoloesol

3.1.7 Mae'r cyfeiriad cyntaf at Ddolgellau gerllaw yn 1284, pan restrwyd ei bod yn cael ei dal gan denantiaid 'rhwymedig'. Dechreuodd y dref fel anheddiad cynhenid Gymreig, anheddaid rhwymedig yng nghwmwd Talynbont. Yr adeg hon roedd yr anheddiad yn fach iawn, gyda dim ond tri threthdalwr yn cael eu rhestru yn 1292-3.[6]Roedd ganddi eglwys o'r amseroedd cynnar (cyfeirir ati yn 1253), er mai Abaty Cymer oedd y prif ganolbwynt crefyddol yn lleol.



07Map degwm o Bandy'r Odyn yn dangos Plas Bryn-y-Gwin (isaf) yn unig 1842.



08Rhan o fap AO 6" i 1 filltir, arolygwyd 1888.

[1]https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT4122&dbname=gat&tbname=core&sessid=CHI2t5x7pp5&queryid=Q684001001646141440
[2]https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=1149
[3]Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif 1030 (Evans, R & Davidson A), Arfarniad Ardal Cadwraeth Drafft Pandy'r Odyn, 2012.
[4]https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=926
[5]https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/sam/FullReport?lang=&id=2457
[6]https://cadw.gov.wales/advice-support/placemaking/historic-character/urban-character-reports#section-dolgellau

Yr 16eg a'r 17eg Ganrif

3.1.8 Roedd y dref mewn lleoliad da ar gyfer amaethyddiaeth, gyda'r tir ar lan yr Wnion ar gyfer ffermio âr, a'r tir uchaf i dda byw. Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd marchnad yn y dref.

3.1.9 Erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg roedd masnach wlân lewyrchus yn Nolgellau ac roedd y dref wedi datblygu'n ganolfan weinyddol a oedd yn cynnal llysoedd cantref, Llysoedd Chwarter a Llys y Sesiwn Fawr.

3.1.10 Yn y cyfnod hwn nid oes tystiolaeth glir o anheddiad ym Mhandy'r Odyn, ond mae'n bosibl fod y pandy a safai ar lan ddeheuol y Ceunant, tan i'r ffordd gael ei hail-alinio, yn dyddio o'r canol oesoedd. Mae'n debyg fod yna odyn yn lleol hefyd ac mai dyna darddiad yr enw Pandy'r Odyn.

3.1.11 Yn 1662 prynodd y Parchedig Robert Owen dir gan deulu Corbett Ynysymaengwyn ger Tywyn. Arweiniodd hyn at greu ystâd Bryn-y-Gwin a'r tŷ cyntaf (a adnabyddir bellach fel Bryn-y-Gwin Uchaf). Mae'n bosibl fod rhyw anheddiad wedi dechrau ym Mhandy'r Odyn yn ystod y cyfnod hwn a gwyddom fod y pandy, y cyfeiriwyd ato uchod, mewn bodolaeth erbyn dechrau'r 17eg ganrif. Mae'n bosibl felly mai hwn oedd yr adeilad nesaf at y bont mewn lluniau cynnar.

Dechrau'r 19eg Ganrif

3.1.12 Roedd yr ystâd wedi datblygu'n sylweddol erbyn dechrau'r 19eg ganrif ac roedd yn cynnwys dros 60 o ffermydd erbyn 1804. Yn 1802 roedd etifeddes yr ystâd, Jane Owen, wedi priodi Hugh Reveley. O ganlyniad, adeiladwyd tŷ newydd, Bryn-y-Gwin Isaf, ar dir uwch ymhellach i'r gorllewin, tua 1806, gyda golygfeydd hardd tuag at y Mawddach. Tirluniwyd y parch hefyd gyda rhodfa newydd heibio Bryn-y-Gwin Uchaf ac mae'n debyg fod bythynnod yr ystâd ym Mhandy'r Odyn hefyd yn dyddio o'r cyfnod hwn o newid helaeth.

3.1.13 Dengys mapiau'r ystâd 'ffatri' i'r de o rodfa'r ystâd, a deellir mae melin wlân oedd hon.[7]

3.1.14 Mae'r pandy y cyfeiriwyd ato yn flaenorol yn diflannu o'r mapiau rhwng 1888 a 1901. Gwelir ei ddirywiad mewn ffotograffau cynnar. Roedd y ffordd wedi osgoi Pont Pandy'r Odyn y 17eg ganrif erbyn 1949.

3.1.15 Roedd y parc yn ymestyn cyn belled â Maes Caled, lle erys rhes o fythynnod ystâd o ddechrau'r 19eg ganrif (y tu allan i'r ardal gadwraeth) gyda cholofnau giât. Ar yr ochr dde mae'r porthdy, tua 1832, a welir ar y map Degwm, mae'r chwith yn ddiweddarach (gweler Ffig 07)



09Bryn-y-Gwin Uchaf © RCAHMW



10 Bryn-y-Gwin Uchaf (Wikimedia Commons)

[7] Parkinson, A.J. (1984), Journal of the Merioneth Historical and Records Society, Vol. IX, Part 4.

3.1.16 Rhwng y giât a Bryn-y-Gwin Uchaf cafwyd datblygiadau o ganol yr 20fed ganrif wrth i rannau o'r ystâd gael eu gwerthu, yn cynnwys y cartref gofal yng Nghefn Rodyn.

4.0 Dadansoddiad Gofodol

4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Mae dwy elfen bendant i bentrefan Pandy'r Odyn. Yr anheddiad ar hyd Ffordd Tywyn o amgylch Pont Pandy'r Odyn ac elfennau ystâd Bryn-y-Gwin i dde'r ffordd.

4.1.2 Newidiodd yr anheddiad o'i ffurf yng nghanol-diwedd y 19eg ganrif, yn bennaf o ganlyniad i ail-alinio'r ffordd a chreu'r bont newydd, tua 1930. Dymchwelwyd y pandy (cyn 1901) a hanner dwyreiniol y teras i'r de o'r ffordd (er mwyn lledu'r ffordd ymhellach mae'n debyg).


4.1.3 Newidiodd y cymeriad tuag at Ddolgellau yn sylweddol gyda thai newydd i ogledd y ffordd rhwng y dref a Phandy'r Odyn.

4.1.4 I'r de, erydwyd yr ystâd y tu hwnt i ffin yr ardal gadwraeth, gydag adeiladau tai ar hyd yr hen rodfa a'r cartref gofal yng Nghefn Rodyn.

4.1.5 O fewn y ffin, oddi ar rodfa 1806, mae Bryn-yr-Odyn[8], Mae hwn o'r golwg y tu ôl i Faes-y-Caled, ond ymddengys mai dyma'r adeilad hynaf yn yr ardal gadwraeth, yn dyddio'n rhannol o'r 17eg ganrif ac o bosibl cyn cyfnod yr ystâd. I'r de mae Twll-y-Bwbach, yr hen felin wlân fe dybir (yn hytrach na'r pandy a oedd ger y ffordd), sydd bellach yn fwthyn gwyliau.[9]Mae'r rhodfa'n parhau i Fryn-y-Gwin Isaf, i'r de o Fryn-y-Gwin Uchaf.

4.1.6 Adeilad amlwedd yw Bryn-y-Gwin Uchaf, tŷ gwreiddiol yr ystâd, yn tarddu o'r 17eg ganrif yn wreiddiol ond â llawer o addasiadau a newidiadau wedi digwydd yn y 18fed a'r 19eg ganrif.[10]

[8]https://dolgellaugolfclub.wixsite.com/bryn-yr-odyn/our_property
[9]https://coflein.gov.uk/en/site/40990/
[10]https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5115



11Cerdyn post o Bandy'r Odyn, Diwedd y 19eg ganrif. Sylwer ar y pandy ar y dde a chyflwr gwreiddiol Tal-y-Bont. (Llun diolch i Photography.Wales)



12Golygfa tebyg i Ffigur 9, sylwer ar faint y newid i Dal-y-Bont, ond mae ffurf yr adeilad yn aros. Mae'r pinwydd uchel yn nodedig.

4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth ceir sawl golygfa allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, yn caniatáu gwerthfawrogi nodweddion neilltuol neu adeiladau allweddol, neu'n rhoi amgyffrediad cywir o'i ddatblygiad o fewn y tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygon pwysig rhwng adeiladau neu'n nodweddion pwysig sy'n cyfrannu at amgyffred o'r ardal neu ei chymeriad.

4.2.2 Mae golygfeydd naill ai'n statig (golygfa gyfeiriadol benodol) neu'n ddynamig, gan gynnwys maes golwg o fan neilltuol.

4.2.3 Mae'r golygfeydd o amgylch Pandy'r Odyn wedi'u cyfyngu i ardaloedd o amgylch y pentrefan, gyda mynediad cyfyngedig i'r ystâd. Gall fod golygfeydd pwysig eraill yma, ond nid oes modd eu ddiffinio

4.2.4 Mae'r rhain fel a ganlyn (gweler Ffig15):

A Golygfeydd ar hyd Ffordd Tywyn tuag at y bythynnod pictwrésg.

B Golygfa ddynamig ar hyd hen aliniad Ffordd Tywyn i'r dwyrain tuag at fythynnod pictwrésg yr ystâd.

C Golygfeydd dynamig ar draws caeau tuag atBandy'r Odyn.

D Golygfeydd ar hyd Afon Ceunant.

E Golygfa ddynamig o Bont Pandy'r Odyn.

F Golygfa ddynamig o Bont Pandy'r Odyn tuag at y bont ddiweddarach a hen safle'r felin.

G Golygfa allan o'r ardal gadwraeth ar hyd Ffordd Tywyn tuag atFryn-y-Gwin Isaf.

H Golygfa i mewn i'r rhodfa tuag atBont Bryn-yr-Odyn.

I Golygfa ddynamig (y tu allan i'r ffin) o Faes Caled.

J Golygfeydd ar hyd Afon Ceunant tuag at Bont Pandy'r Odyn.



13Golygfa o'r 19eg Ganrif tuag at Ddolgellau. (Llun diolch i Photography.Wales)



14Golygfa ar draws ffermdir tuag at Pandy'r Odyn. (2022).

4.3 Mannau gleision a Choed


4.3.1 Nodweddir mannau gleision Pandy'r Odyn gan ffermdir i'r gogledd a'r gorllewin, ynghyd â'r parc coediog o amgylch Bryn-y-Gwin Uchaf i'r de.

4.3.2 Mae ffermdir agored yn gwahanu'r pentrefan o Afon Wnion ac mae hyn yn rhagod pwysig i'r bythynnod pictwrésg gyda golygfeydd agored mewn cyd-destun.

4.3.3 Mae'r coetir ar hyd Afon Ceunant yn gwneud coridor pwysig, sy'n cysylltu'r pentrefan ag Afon Wnion a Llwybr Mawddach. O'r llwybr hwn ceir golygfeydd ar draws i'r bythynnod ac i'r ffermdir agored (i'r gorllewin).

4.3.4 Dangosir coed neu grwpiau o goed neilltuol (yn ychwanegol at y rheiny a ddynodwyd mewn llefydd eraill) ar y cynllun yn Ffig 16, mae'r rhain yn cynnwys

- Y coetir yn y parc ym Mryn-y-Gwin Uchaf.
- Coed ar hyd Afon Ceunant.
- Pinwydd uchel (i'r de o'r ffordd, o fewn y parcdir gwreiddiol), nesaf at 5 a 6 Pandy'r Odyn, a ger y fynedfa i Fryn-y-Gwin Uchaf sy'n amlwg mewn golygfeydd cynnar ac yn y rhai presennol hefyd.



Golygfeydd Allweddol
1:2000 ar A4

15 Golygfeydd allweddol([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Coed
1:2000 ar A4

16 Coed a Grwpiau Coed Arwoddocaol([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

5.0 Cymeriad

5.1 Trosolwg

5.1.1 Mae cymeriad Pandy'r Odyn yn dal i adlewyrchu anheddiad ystâd pictwrésg ar hyd Ffordd Tywyn, a ddatblygwyd yn ystod twf yr ystâd yn y 19eg ganrif.

5.1.2 Mae'r golygfeydd sy'n edrych yn ôl tua Dolgellau yn dal i gadw cymeriad cynhenid golygfeydd y 19eg ganrif, er bod y ffordd dipyn yn fwy amlwg erbyn hyn, wedi'i lledu ac wedi dioddef gan safoni nodweddion priffyrdd.

5.1.3 Yn sgil ail-aliniad y ffordd, yn yr 1930au mae'n debyg, effeithiwyd yn sylweddol ar gymeriad yr anheddiad wrth greu pont newydd a newid ffin yr ystâd. Arweiniodd lledu diweddarach (yn ôl pob tebyg) at ddymchwel yn rhannol y teras sydd bellach yn cynnwys 5 a 6 Pandy'r Odyn.

5.1.4 Gyda gwerthu, ac yna datblygu, ymyl orllewinol ystâd Bryn-y-Gwin, yn ymestyn tuag at hen borthdy'r fynedfa ym Maes Caled ac ar hyd rhodfa 1806, newidiwyd yr olygfa'n sylfaenol i'r de a'r de-ddwyrain o'r anheddiad, ac aeth o fod yn un wledig i un swbwrbaidd.

5.1.5 Mae ystâd Bryn-y-Gwin yn rhannol yn yr ardal gadwraeth ac mae'n cynnwys tŷ cynharach Bryn-y-Gwin Uchaf, Twll-y-Bwbach (a nodir fel "ffatri" ar gynlluniau'r ystâd, melin wlân yn wreiddiol) yn ogystal â thŷ ym Mryn-yr-Odyn, yr adeilad cynharaf yn yr ardal gadwraeth mae'n debyg. Erbyn hyn mae coedwig ar dir yr ystâd, ac ni cheir fawr ddim golygfeydd o'r tŷ.

5.1.6 Mae Bryn-y-Gwin Uchaf, tŷ gwreiddiol yr ystâd yn adeilad amlwedd neilltuol gyda ffenestri oriel a feranda bictwrésg wladaidd.

5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Gellir gweld cymeriad yr ardal gadwraeth mewn dwy ran, bythynnod yr ystâd ar hyd Ffordd Tywyn o amgylch Pont Pandy'r Odyn ac elfennau ystâd Bryn-y-Gwin o fewn y tir.

5.2.2 Ar hyd ffordd Tywyn mae dwy res o fythynnod ystâd (y ddwy wedi'u rhestru), 1-3 Pandy'r Odyn a 5-6 Pandy'r Odyn, sydd wedi'i hadeiladu yn y dull pictwrésg ac yn dyddio o ddechrau'r 19eg ganrif. Ar ochr ogleddol y ffordd, mae1-3 Pandy'r Odyn[11]yn amlwg iawn. Ar yr ochr orllewinol mae tŷ

[11]https://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/listedbuilding/FullReport?lang=&id=5113



17Rhif 5 a 6 Pandy'r Odyn (2022).



18 Pont Pandy'r Odyn. (2022).

cynharach, efallai o'r 18fed ganrif, a gafodd ei ymestyn i'r dwyrain i ffurfio'r teras. Mae tai Bryn-y-Gwin yn llawn cymeriad, gyda chyrn simdde wedi'u gosod yn lletraws, a bondo ysgubedig hyfryd dros ffenestri'r llawr cyntaf. Ymddengys mai estyniad diweddarach (canol y 19eg ganrif mae'n debyg) yw Bwthyn 1A, ond yn yr un arddull. Newidiwyd rhywfaint o'r ffenestri, ond mae'r ffenestri cynnar yn rhai myliynog gyda phennau gothig i'r llawr cyntaf.

5.2.3 Mae'r rhes i ochr ddeheuol y ffordd, 5 a 6 Pandy'r Odyn wedi'i byrhau'n sylweddol, mae'n debyg oherwydd lledu'r ffordd. Yn wreiddiol roedd hon yn rhes o 6 bwthyn, ond cafodd ei lleihau o ran hyd ac ailadeiladwyd y rhan ddwyreiniol i raddau helaeth iawn. Mae gan y rhan gynharaf garreg fwy syml, ffenestri dormer talcennog a phortsh cain (gweler ffig 20). Yn anffodus ffenestri anaddas uPVC sydd gan y rhan a ail-adeiladwyd erbyn hyn.


5.2.4 Pâr o fythynnod oedd Tal-y-Bont ar un adeg, i'r gogledd o aliniad gwreiddiol y ffordd, nesaf at Bont Pandy'r Odyn. Cafodd y rhain eu haddasu gryn dipyn. Yn wreiddiol roedd tipyn o gymeriad i'r bythynnod (gweler Ffig 19 a 27), ond bellach mae'n edrych fel ysgol gyda'r ffenestri wedi cael eu cnocio at ei gilydd o'r llawr gwaelod i'r cyntaf ac yn lle'r portsh gwladaidd dull 'cottage ornée', ceir fersiwn modern gyda tho diweddarach a goleuadau to modern. O leiaf mae'r adeilad wedi cadw'r ffenestri dormer carreg nodweddiadol a'r cyrn simne mawr ac mae'n bwysig yn ei berthynas â Phont Pandy'r Odyn.

5.2.5 Mae'r ffordd wreiddiol yn croesi Pont Pandy'r Odyn, sy'n tarddu o'r 18fed ganrif gyda bwa sengl, fel arfer o rwbel gyda meini bwa a llin gwrs. Erbyn hyn mae coed sy'n hunan-hadu yn agos iawn at y bont sydd angen eu tynnu oddi yno. I'r gogledd o'r bont o'r 18fed ganrif mae un newydd yr 1930au, y bwa o goncrid a pharapet carreg.

5.2.6 Ymhellach i'r gorllewin mae waliau terfyn carreg Bryn-y-Gwin yn cyd-fynd â dyddiad ail-alinio'r ffordd, yn cynnwys y fynedfa â gatiau.

5.2.7 O'r golwg gan mwyaf mae tŷ cyntaf yr ystâd, Bryn-y-Gwin Uchaf (gweler ffig 05). Mae hwn yn dyddio gyntaf o tua 1662 a datblygiad cychwynnol yr ystâd gan y Parch. Robert Jones, ond gydag addasiadau helaeth yn y 18fed a'r 19eg ganrif, sy'n rhoi nodwedd bictwrésg bendant iddo. Fe'i disodlwyd gan y tŷ mwy sydd â gwell golygfeydd ym Mryn-y-Gwin Isaf yn 1806.

5.2.8 I'r dwyrain o Fryn-y-Gwin Uchaf, rhodfa Bryn-y-Gwin Isaf sydd fel arfer yn ffurfio ffin ddeheuol yr ardal gadwraeth. Yma gwerthwyd tir yr ystâd a chafwyd datblygiadau diweddarach. Erys strwythurau cynt yn Nhwll-y-



19 Golygfa o'r 20fed ganrif cynnar; sylwer y teras hir, a newidwyd ers hynny, i'r de o'r ffordd; a diflannodd y felin.(llun diolch i Photography.Wales)



20 5 a 6 Pandy'r Odyn; y teras wedi ei fyrhau erbyn hyn. Sylwer y gwaith pren addurniedig a'r portsh calchog yn yr adran gynharach

Bwbach, y cyfeirir ato fel 'ffatri' ar gynllun yr ystâd 1806[12]a'i nodi fel melin wlân. Heddiw fe'i haddaswyd yn dŷ. Nesaf ato ac o'r 18fed ganrif, wedi'i rhestru, mae Pont Bryn-yr-Odyn, pont sy'n debyg iawn ei ffurf i Bont Pandy'r Odyn.

5.2.9 I'r gogledd o'r rhodfa, mae Bryn-yr-Odyn[13], wedi'u guddio o'r golwg y tu ôl i Faes Caled, ond ymddengys mai dyma'r adeilad hynaf yn yr ardal gadwraeth. Yn wreiddiol roedd yn annedd un llawr ar gynllun tŷ hir clasurol (o'r 17eg ganrif mae'n debyg a gall fod cyn ystâd Bryn-y-Gwin). Cafodd ei ymestyn, gan yr ystâd, yn y dull pictwrésg gydag ymylon bondo addurniadol a nodweddion eraill i'r gorllewin. I'r gogledd-ddwyrain o Fryn-yr-Odyn mae pâr o dai un llawr diweddarach.

5.3 Deunyddiau a Manylion.

5.3.1 Y prif ddeunydd adeiladu ym Mhandy'r Odyn yw carreg. Mae carreg ardal Dolgellau yn igneaidd gan mwyaf gyda haenau o gerrig silt a cherrig llaid. Yn gyffredinol mae'r bythynnod wedi'i hadeiladu o rwbel gyda cherrig mwy yn cael eu defnyddio ar gyfer linteli ac addurniadau. Ychydig o gerrig wedi'u trin sydd yno sy'n adlewyrchu pa mor anodd oedd gweithio'r deunydd. Mae'r cerrig yn aml yn fawr iawn ac mae cymysgedd o gerrig chwarel a meini garw neu gerrig afon, sy'n adlewyrchu'r arddull bictwrésg yn ogystal â'r hyn a oedd ar gael.

5.3.2 Mae'r toi i gyd o lechi, fel arfer bellach o'r math diweddarach, teneuach o Benrhyn neu Flaenau Ffestiniog. Mae'r lluniau cynnar yn awgrymu llechi mwy trwchus, wedi'u gosod yn draddodiadol mewn haenau gostyngol. Mae portsh rhif 6 Pandy'r Odyn wedi cadw'r llechen cen pysgod, sy'n fanylyn pwysig iawn.

5.3.3 Mae'r manylion o amgylch y ffenestri llawr cyntaf, yn enwedig ar Ffordd Tywyn yn arbennig, gyda'r llechen ysgubedig ar 1-3 Pandy'r Odyn yn ddeniadol iawn.

5.3.4 Mae'r manylion gwaith coed yn bwysig, er bod rhai o'r manylion 'cottage ornée' mwy diddorol ar y lluniau cynnar, fel ar y portsh i Dal-y-Bont wedi eu colli. O ddiddordeb arbennig mae bondo bwaog a manylion addurniadol 6 Pandy'r Odyn.



21 Pont Pandy'r Odyn Newydd (c.1930) (2022).



22 Gwaith coed cain a rwbel sylweddol yn 6 Pandy'r Odyn. Sylwer y llechi cen pysgod ar do'r portsh.

[12]Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif. 1030 (Evans, R & Davidson A), Arfarniad Ardal Cadwraeth Drafft Pandy'r Odyn, 2012.
[13]https://dolgellaugolfclub.wixsite.com/bryn-yr-odyn/our_property

5.3.5 Ymddengys hefyd fod Bryn yr Odyn, a Bryn-y-Gwin Uchaf, hwythau wedi cadw cryn dipyn o waith coed hanesyddol, er nad oedd modd archwilio'n fanwl.

5.4 Ffiniau

5.4.1 Mae diffinio'r gofod ym Mhandy'r Odyn yn bwysig i'w gymeriad, a waliau carreg yw prif ffurf y gofod diffiniol.

5.4.2 Adeiladwyd y waliau carreg ar hyd Ffordd Tywyn yn y 20fed ganrif yn bennaf, gyda morter ac fel rheol maent yn dyddio o'r adeg y lledwyd ac ail-aliniwyd y ffordd ac ar ôl hynny, ac maent yn dal i ddod â diffiniad ac ansawdd i'r strydlun.

5.4.3 O fewn y parc cofnodir fod ffiniau caeau cynharach (cloddiau)[14], a gall fod waliau terfyn eraill yn bodoli o ddyddiad cynharach (nid oedd modd cael mynediad i benderfynu i ba raddau).

5.5 Nodweddion Eraill, Manylion ac Arwynebau.

5.5.1 Ar hyd y ffordd rhwng 5-6 Pandy'r Odyn a ffin ddwyreiniol yr ardal gadwraeth mae wal garreg sy'n dyddio o'r 20fed ganrif, ond yn hon mae'r hyn sy'n ymddangos yn gafn ceffyl cynharach. Mae'n bosibl fod hwn wedi'i adleoli.

5.5.2 Nodwedd allweddol o Bandy'r Odyn yw'r ffordd y mae'r tai wedi'u gosod i lawr islaw'r ffordd. Yn y lluniau cynnar mae'r rhain wedi'u leinio â meini copa. Mae'r unig rai sydd ar ôl bellach ar ochr ddwyreiniol Tal-y-Bont, ond erys y waliau cerrig ac mae'r berthynas hon yn arwyddocaol.

6.0 Asedau Hanesyddol

6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau hanesyddol dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig) i'w cael yn yr ardal gadwraeth (gweler Ffig 29):

6.1.1 Henebion Cofrestedig

- *ddim yn berthnasol*



23Cafn ceffyl, Ffordd Tywyn (2022).



24Llechen ysgubedig dros ffenestri'r llawr cyntaf, 2 Pandy'r Odyn. (2022).

[14]https://www.archwilio.org.uk/arch/query/page.php?watprn=GAT5360&dbname=gat&tbname=core&sessid=CHl2t90ib6b&queryid=Q192972001646319680

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *5108 Pont ym Mryn-yr-Odyn*
- *5112 1 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5113 2 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5114 3 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5109 5 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5110 6 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5113 2 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5113 2 Bythynnod Pandy'r Odyn*
- *5115 Bryn-y-Gwin Uchaf*

6.1.3 Dynodiadau Ychwanegol Dichonol.

Ystyrir y dylai'r adeiladau a'r strwythurau canlynol gael eu hystyried i'w rhestru ar y rhestr genedlaethol:

- *Bryn-yr-Odyn – mae hwn yn adeilad o gryn oed, wedi'i addasu i'r ystâd a dylid ei ystyried yn brif flaenoriaeth i gael ei warchod.*
- *Tal-y-Bont –Elfen allweddol o'r anheddiad pictwrésg, er iddo gael ei newid lawer.*

6.1.4 Nesaf at yr Ardal Gadwraeth.

Mae'r canlynol o fewn 500m i'r ardal gadwraeth, ac roedden nhw hefyd yn rhan o ystâd Bryn-y-Gwin:

- *5103 - 1 Maes Caled.*
- *5104 - 2 Maes Caled.*
- *5105 - 3 Maes Caled.*
- *5106 - 4 Maes Caled.*
- *5107 - 5 Maes Caled.*
- *5165 - Bryn-y-Gwin (Bryn-y-Gwin Isaf).*

6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig

Nodwyd fod yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn yr ardal gadwraeth o ddiddordeb lleol arbennig (gweler Ffig30):

- *Tal-y-Bont (gweler y nodyn uchod).*
- *Bryn-yr-Odyn (gweler y nodyn uchod).*
- *Cafn Ceffyl (gweler adran 5.5).*
-



25Waliau terfyn carreg a meini copa yn diffinio'r gofod rhwng y brif ffordd â Phen-y-Bont (2022).



26 Afon Ceunant tuag at Bont Pandy'r Odyn (2022).

6.3 Cofrestr Adeiladau Traddodiadol

6.3.1 Dylid hefyd ystyried 'Cofrestr Adeiladau Traddodiadol' yr Awdurdod. Gan fod y rhestr hon yn cael ei hadolygu trwy'r amser, ni fyddai'n ymarferol ei chynnwys yn y Gwerthusiad Ardal Gadwraeth hwn. Cysylltwch â'r Awdurdod os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r gofrestr.

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad, ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr ardal gadwraeth.

8.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Mae olion cynhanes yn y cyffiniau ac felly mae posibilrwydd fod archeoleg cysylltiedig wedi goroesi. Er na ddeellir fod archwiliad archeolegol wedi'i wneud yn yr ardal gadwraeth, byddai'r ardal o amgylch Afon Ceunant a'r lle mae'r afon yn croesi wedi bod yn ddeniadol ar gyfer anheddiad.

8.1.2 Credir fod gweithgaredd Rhufeinig wedi'i gyfyngu'n bennaf i'r tir uwch, ond tybir fod y ffordd drwy Gwm Wnion o'r canol oesoedd neu gynt a gall fod archeoleg cysylltiedig, o bosibl o fannau croesi cynt ar yr afon neu anheddiad.

8.1.3 Gall fod hefyd olion pellach islaw llawr y pandy, nodweddion ystâd eraill a' rhan o'r teras a gafodd ei ddymchwel.

9.0 Asedau Dynodedig Eraill

9.1 Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA)

9.1.1 Mae SoDdGA Bryn-y-Gwin Isaf yn gorgyffwrdd ochr orllewinol yr ardal gadwraeth. Fe'i dynodwyd yn glwyd fagu bwysig i'r ystlum trwyn pedol lleiaf a hefyd ystlumod clustiog brown. Mae'r safle'n cynnwys y tŷ (sy'n cynnal y glwyd fagu), gofodau to adeiladau cysylltiedig sy'n cael eu defnyddio fel lloeren a chlwydi nos. Mae'r safle'n cynnwys y parc a'r coetir yn ogystal sy'n cael eu defnyddio fel cynefin bwydo gan ystlumod trwyn pedol lleiaf.



27 Cerdyn Post 19eg ganrif o Bandy'r Odyn. (Llun diolch i Photography.Wales)



28 Wal a mynediad i Fryn-y-Gwin Uchaf. (2022).

9.1.2 Yn dilyn ffin debyg i'r SoDdGA, yn gorgyffwrdd gorllewin yr ardal gadwraeth, mae ardal cadwraeth arbennig (ACA) hefyd, sef*Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion.*

9.1.3 Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yw safle a ddynodwyd o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o rwydwaith Natura 2000. Mae safleoedd Natura o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer gwarchod ystod o gynefinoedd a rhywogaethau bregus o ffawna a fflora gwyllt. Mae ACAoedd yn cynnwys cynefinoedd tirol a morol (ac eithrio adar sydd o dan warchodaeth ar wahân) a chânt eu rhestru yn y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.


9.2 Gorchmynion Cadw Coed

9.2.1 Nid oes gorchmynion cadw coed yn yr ardal gadwraeth (ar wahân i'r warchodaeth a roddir gan statws yr ardal gadwraeth), ond caiff llawer o hen barc Bryn-y-Gwin, sydd yn amgylchynu'r ddau dŷ, ei ddiffinio ar y rhestr coetiroedd hynafol.

9.3 Tirwedd Hanesyddol Cofrestredig


9.3.1 Saif Pandy'r Odyn yn nhirwedd hanesyddol cofrestredig HLW (Gw) 13 – Bro Dolgellau 13.[15]

[15]http://cadwpublic-api.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=en&id=HLW%20(Gw)%2013



Adeiladau Rhestredig
1:2000 ar A4

Adeiladau Rhestredig([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



Asedau Annynodedig o Ddiddordeb Lleol Arbennig
1:2000 ar A4

Adeiladau o Arwyddocâd Lleol([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

10.0 Bioamrywiaeth

10.1 Coed

10.1.1 Gweler 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

10.1.2 Gweler 4.3 am ddisgrifiad o goed/ardaloedd o goed allweddol o fewn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

10.1.3 Caiff rhannau o barc Bryn-y-Gwin, sy'n amgylchynu'r ddau dŷ, eu diffinio ar y rhestr coetir hynafol.


10.1.4 Mae **Prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd Cymru** yn weithredol o fewn sawl Ardal Gadwraeth, gan gynnwys ardaloedd sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, ac mae'n ceisio amddiffyn ac adfer cynefinoedd coetiroedd prin yr lwerydd trwy reoli Rhododendron ponticum a rhywogaethau estron ymledol eraill. Pan gynigir gwaith, cynlluniau plannu, tirlunio, cynnal a chadw neu ddatblygiad o fewn yr Ardaloedd Cadwraeth hyn, dylid ystyried bioddiogelwch, atal cyflwyno rhywogaethau ymledol newydd, a'r effaith bosibl ar gynefinoedd fforestydd glaw Celtaidd cyfagos. Dylid ceisio cyngor cynnar gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri lle gall cynigion effeithio ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â'r prosiect neu gynnwys disodli rhywogaethau, clirio llystyfiant neu reoli cynefinoedd.

10.2 Rhywogaethau a Warchodir.

10.2.1 Mae SoDdGA Bryn-y-Gwin lsaf yn gorgyffwrdd ochr orllewinol yr ardal gadwraeth. Fe'i dynodwyd yn glwyd fagu bwysig i'r ystlum trwyn pedol lleiaf a hefyd ystlumod clustiog brown.

10.2.2 Gwyddom fod ystod eang o rywogaethau a warchodir yn bresennol ar hyd Cwm Wnion yn ymestyn i Aber Mawddach, sy'n cynnwys cennau, llysiau'r iau a mwsoglau prin ynghyd ag amrywiaeth eang o ieir bach yr haf. Mae rhywogaethau nodedig eraill yn cynnwys;

- Gwybedogion Brith
- Telorion y Coed
- Tingochion
- Cyffylogod
- Trochwyr




Dynodiadau Eraill
1:2000 ar A4

Dynodiadau Eraill([H] Hawlfraint a hawliau cronfa wybodaeth y Goron 2021 Arolwg Ordnans 100022403)



YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLAETH ARDAL GADWRAETH

1.0 Crynodeb o ddadansoddiad CGCB



2.0 Deall y Materion

2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Pandy'r Odyn wedi cadw llawer o'i gymeriad fel anheddiad ystâd pictwrésg o ddechrau'r 19eg ganrif, ynghyd â thŷ gwreiddiol yr ystâd a rhai olion o ddiwydiant gwlân pwysig Dolgellau.

2.1.2 Fodd bynnag, erbyn hyn mae newidiadau diweddarach yn dechrau bygwth o ddifrif ei werth esthetig a hanesyddol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i'r strwythurau hanesyddol a datblygiadau mewnlenwi, ar hyd y brif ffordd ac o fewn hen ffiniau parc Bryn-y-Gwin.

2.1.3 Mae adeiladau Pandy'r Odyn i gyd mewn defnydd buddiol ar hyn o bryd, yn seiliedig ar y gwaith maes a wnaed i ategu'r adroddiad hwn, er nad oedd modd cael mynediad at diroedd ehangach yr ystâd.

2.1.4 Mae rhai problemau sylweddol yn cael effaith andwyol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Newid gwaith coed, ffenestri a drysau hanesyddol i rai modern, uPVC fel arfer.
- Datblygiadau ar gyn dir agored neu ddatblygiadau mewnlenwi sy'n effeithio'r ardal gadwraeth er gwaeth.
- Goruchafiaeth y ffordd fawr.

2.1.5 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Ffenestri uPVC ar 5 Pandy'r Odyn (sydd wedi'i restru) a hefyd Tal-y-Bont. Gwelwyd cryn newid ansensitif yn ogystal i Dal-y-Bont.
- Colli manylion gwaith coed hanesyddol, er enghraifft yr ymylon bondo ar 3 Pandy'r Odyn sydd bellach o bren haenog neu debyg.
- Mae pwyntio sment yn gyffredin iawn ar yr adeiladau hanesyddol, sydd yn anfoddhaol i'r llygad ac a fydd yn creu lleithder yn y waliau.



32 Ffenestri uPVC, 5 Pandy'r Odyn. (2022)



32 Golygfa gynnar, sylwer ar yr ymylon bondo a'r manylion gwreiddiol yn ogystal â maint gwreiddiol y teras i'r dde. (2021)

- Datblygu byngalos a'u tebyg ar hyd Ffordd Tywyn, o fewn yr hen barc ac i'r gogledd o'r ffordd.

2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Ar hyn o bryd nid oes adeiladau mewn perygl yn yr ardal gadwraeth, er bod cyflwr a defnyddio Bryn-y-Gwin Isaf fel nifer o letyau gwyliau yn bennaf, o bryder yn y cyd-destun ehangach.

2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB (SWOT) i Ardal Gadwraeth Dolgellau. Defnyddir hwn i dynnu sylw at y problemau, ond hefyd at rai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Bydd wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

2.3.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol i weithredu arnynt, er mwyn adeiladau ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth:

- Ceisio gwarchod Tal-y-Bont a Bryn-yr-Odyn drwy eu rhestru.
- Ceisio gwella golwg adeiladau sydd wedi'u newid yn ansensitif, yn cynnwys Bythynnod Pandy'r Odyn ac yn arbennig Tal-y-Bont, a fu unwaith yn fwthyn llawn cymeriad.
- Cefnogi adfer manylion adeiladu traddodiadol ac uwchraddio addas er mwyn cael gwell perfformiad amgylcheddol, tra'n cadw cymeriad arbennig yr ardal.
- Ceisio cefnogi a defnyddio rheolaethau priodol i sicrhau fod datblygiadau o amgylch ymylon yr ardal gadwraeth o ansawdd addas. Diogelu'r tir amaethyddol sydd ar ôl a'r parc ym Mryn-y-Gwin rhag tresmasu pellach.
- Manteisio'n fwy ar y cysylltiadau at Lwybr Mawddach ar hyd Afon Ceunant.

2.3.3 Mae'r CGCB yn nodi nifer o wendidau a bygythion, sy'n cael eu dangof fel camau gweithredu,gyda'r rheiny'n cynnwys:

- Ceisio ymgysylltiad cadarnhaol i wrthdroi newidiadau andwyol i adeiladau a nodweddion allweddol.



34Datblygiad modern yn effeithio ar leoliad yr Ardal Gadwraeth. Yr adeilad cynnar ar y chwith yw'r cyn borthordy (rhestredig) ym Maes Caled (2022).

- Ceisio trafodaeth â'r adran briffyrdd i egluro y dylai'r ffordd (sydd bellach yn ffordd ymylol) gael ei thrin mewn modd mwy sensitif.
- Ymgysylltu â pherchnogion Bryn-y-Gwin Uchaf am y coed sy'n ffinio â'r ardal gadwraeth ac am gyflwr Bryn-y-Gwin Isaf a'r defnydd a wneir ohono.
- Sicrhau fod mannau gleision a golygfeydd allweddol yn cael eu gwarchod drwy ymgysylltiad lleol ac wrth ystyried ceisiadau am ddatblygu.
- Gwell rheolaeth dros ddatblygiadau ymylol a mewnlenwol; hyrwyddo dyluniad o well ansawdd ac atal datblygiadau amhriodol.

3.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

3.1 Newid Ffiniau.

3.1.1 Ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth.

3.2 Diogelwch Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Ceir cyd-destun fframwaith deddfwriaethol Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol **Cyflwyniad i Ardaloedd Cadwraeth ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain** Rhydd y ddogfen hon arweiniad a pholisïau cyffredinol hefyd.

3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Gellid gwella ei diddordeb arbennig yn sylweddol trwy roi sylw i rai o'r materion (gweler 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth. Gellid gwneud hynny trwy estyn pwerau neu ganllawiau cynllunio.

3.3.2 Mae materion a chyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Argymhellir ymestyn gwarchodaeth drwy restru adeiladau allweddol (yn hytrach na gweithredu cyfarwyddiadau erthygl 4), ceisio atgyweirio a chadw, ond hefyd adfer rhywfaint o fanylion a gollwyd lle ceir tystiolaeth a bod cyfle i wneud hynny.

- Ystyried dehongli a gwell cysylltedd gyda chysylltiadau at Lwybr Mawddach. Gellid darparu'r dehongli yn sensitif ger Pont Pandy'r Odyn ar yr ystâd, y melinau a'r anheddiad, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol.
- Ceisio rheoli datblygiad mewnlenwol a datblygiad o ansawdd amhriodol ar ymylon yr ardal gadwraeth.
- Annog ailosod manylion gwaith coed mwy addas i adeiladau o arwyddocâd lleol, yn lle rhai UPVC modern.

3.3.3 Gan ddefnyddio'r mesuray uchod a thrwy ymgynghori (gw. isod), codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid addas. Hyn i gynnwys:

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion a chymuned Pandy'r Odyn, Bryn-y-Gwin Uchaf ac ystâd Bryn-y-Gwin yn ehangach.
- Codi ymwybyddiaeth (gyda chefnogaeth i'r dyfodol) a gwella sgiliau contractwyr a chrefftwyr lleol.

3.4 Cynaliadwyedd a Gwella Amgylcheddol

3.4.1 Ceir arweiniad ynghylch yr arddull cywir ar gyfer cyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatadau angenrheidiol yn Ardaloedd Cadwraeth Eryri, yn y ddogfen: ***Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth – Canllaw Cynllunio ac Ymarferol.***

3.4.2 Mae gan Bandy'r Odyn rai cyfleoedd naturiol ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa fechan ac mae'r rhai eisoes wedi dechrau cael eu defnyddio gerllaw. Gellid defnyddio'r ddyfrffos a hen safleoedd y felin i gynhyrchu pŵer cyn belled a bod hyn yn cael ei wneud yn sensitif a chan ystyried y ffactorau ecolegol ac archeolegol.

3.4.3 Dylid cefnogi ac annog cynlluniau ynni cynaliadwy lle nad ydynt yn effeithio er gwaeth ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth.

3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hanfodol bwysig i'r fioamrywiaeth a'r arwyddocâd esthetaidd. Nid oes coed â gorchmynion cadw coed arnynt, ond mae coetir wedi'i restru ar y rhestr coetiroedd hynafol. Clustnodwyd coed eraill yn rhai o bwys yn yr ardal gadwraeth (gw. 4.3).

3.5.2 Mae cryn bosibilrwydd y gellid gwella bioamrywiaeth yr ardal gadwraeth. Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau. Cyfle arbennig o ystyried natur SoDdGA Bryn-y-Gwin Isaf.
- Gall defnyddio toeau gwair a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, os yn addas i'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt
- Rheoli a gwella gwrychoedd
- Gwarchod coed yn ystod gwaith adeiladu
- Caniatáu i goed aeddfedu heb ymyrraeth.
- Cadw pren marw sy'n dal i sefyll a chreu cludeiriau pren marw ar gyfer pryfed a bywyd gwyllt arall.

3.5.3 Sicrhau fod datblygiadau'n cael eu llywio gan ardaloedd cymeriad neilltuol yr Ardal Gadwraeth a'u bod yn cyd-fynd â nhw ac yn ystyried tystiolaeth arall o nodweddion hanesyddol a sensitifrwydd tirwedd yr ardal o gwmpas.

3.5.4 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.5 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a sicrhau fod prosiectau'n cael eu rhoi ar waith i wella'r tirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

3.5.6 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.7 Gwella'r seilwaith gwyrdd mewn ffordd sy'n darparu anghenion ynni'r ardal heb gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth neu gymeriad yr ardal gadwraeth.

4.0. Ymgynghoriad

Bu drafft Cynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth yn destun yr ymgynghoriad canlynol:

- Drwy wefan y Parc Cenedlaethol.

Atodiadau:

Atodiad A - Ffynonellau

Y prif ffynonellau gwybodaeth (cyhoeddedig a heb eu cyhoeddi) a ddefnyddiwyd ar gyfer cynhyrchu'r Arfarniad hwn fu:

Cadw (2010), *Dolgellau, Deall Nodweddion Trefol*. Mynediad yma: https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/Dolgellau-%20Understanding%20Urban%20Character_0.pdf

Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association un 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester)

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015).*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif1030 (Evans, R &Davidson A)*,Arfarniad Ardal Gadwraeth Drafft Pandy'r Odyn*, 2012.

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif 537 Historic Landscape Characterisation- Vale of Dolgellau. 2005.

Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Lynch, Frances, *A guide to Ancient and Historic Wales – Gwynedd*, HMSO, 1995.

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales*(London) (1773-76), *Mynediad yma: https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Parkinson, A.J. (1984), Journal of the Merioneth Historical and Records Society, Vol. IX, Part 4.

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

Amrywiol (1921) *An Inventory of the Ancient Monuments in Wales and Monmouthshire, volume 1, County ofMerioneth.* RCAHMW.